
YSGOL ABERCONWY

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO



# GWYBODAETH


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

info@aberconwy.conwy.sch.uk
www.aberconwy.conwy.sch.uk

# DYSGU YN YSGOL ABERCONWY

## CYFLWYNIAD

Rydym yn dymuno i Ysgol Aberconwy fod yn gymuned hapus, gofalgar, trefnus a pharchus, lle mae pobl yn cael eu trin yn deg ac yn derbyn cymorth i ddatblygu i'w llawn botensial, gan eu galluogi i ddod o hyd i'w lle mewn cymdeithas. Yn fyr, ein nod yw YSBRYDOLI ein myfyrwyr drwy ddarparu dull arloesol o ddysgu a'u CEFNOGI gyda'n systemau bugeiliol pwrpasol i'w galluogi i LWYDDO yn yr ysgol a'r byd ehangach.

## YR AMSERLEN DDYDDIOL

Yn ystod Blynyddoedd 7–11 addysgir y plant am 25 awr bob wythnos. Mae'r oriau hyn yn cynnwys yr amser a roddir i Addysg Grefyddol, ond nid y gwasanaeth boreol statudol, cofrestru nac amser egwyl.

**Dyma'r amserlen:**

<table>
<tr><th>BLYNYDDOEDD 8, 10, 12 & 13</th><th>BLYNYDDOEDD 7, 9 & 11</th></tr>
<tr><td colspan="2">CYRRAEDD<br>(08:45 – 08:50)</td></tr>
<tr><td colspan="2">COFRESTRU - BUGEILIOL<br>(08:50 – 09:10)</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFNOD 1<br>(09:10 – 10:10)</td></tr>
<tr><td>EGWYL<br>(10:10 - 10:25)</td><td>CYFNOD 2<br>(10:10 -11:10)</td></tr>
<tr><td>CYFNOD 2<br>(10:25 – 11:25)</td><td>EGWYL<br>(11:10 – 11:25)</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFNOD 3<br>(11:25 – 12:25)</td></tr>
<tr><td colspan="2">CINIO<br>(12:25 – 13:10)</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFNOD 4<br>(13:10 – 14:10)</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFNOD 5<br>(14:10 – 15:10)</td></tr>
</table>

## TREFNIADAU AMSER CINIO

Gall myfyrwyr brynu cinio yn yr ysgol, neu ddod â chinio pecyn. Defnyddir system adnabod ôl bys yn lle arian parod, a bydd pob myfyriwr yn aros ar safle'r ysgol yn ystod yr egwyl ganol bore ac amser cinio. Mae nifer o gyfleusterau'r ysgol ar gael i fyfyrwyr yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol.

## CWRICWLWM YR YSGOL

Mae ein cwricwlwm wedi'i rannu'n dri chyfnod o 11-18 oed. Mae'n cwrdd â gofynion Cwricwlwm Cymru ac yn ymgorffori polisïau'r Corff Llywodraethol ac Awdurdod Addysg Conwy. Mae polisïau'r ysgol a datganiad cwricwlwm Awdurdod Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, rydym hefyd wedi gosod datganiad cwricwlwm manwl ar ein gwefan sy'n amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd a gyflwynwyd yn 2022.

## BLWYDDYN 7 - 9

Mae'r cwricwlwm ar gyfer y blynyddoedd hyn yn gyffredin i bob myfyriwr. Mae'n adeiladu ar ddysgu yn ein hysgolion cynradd partner ac yn datblygu ymhellach y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio ar lefel TGAU a thu hwnt.

Ym Mlwyddyn 7 mae myfyrwyr yn gweithio ar brosiectau yn y 6 Maes Dysgu ac ym Mlwyddyn 8 a 9 archwilir cyfres o themâu cyffredin ar draws meysydd pwnc.

## TGAU

Mae pob myfyriwr yn parhau i ddilyn Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Bagloriaeth Cymru (CBC), Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd. Mae disgyblion hefyd yn cael cyfle i ddewis tri chwrs dewisol i'w dilyn ym Mlwyddyn 10 ac 11.

## Y CHWECHED DOSBARTH

Mae'r mwyafrif yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at dri neu bedwar pwnc UG neu gyfwerth ym Mlwyddyn 12, yn ogystal â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Ym Mlwyddyn 13 mae myfyrwyr yn astudio tri phwnc lefel A2 neu gyfwerth, yn ogystal â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae dewis eang o gyrsiau ar gael, gan gynnwys pynciau sy'n cael eu dysgu mewn cydweithrediad â darparwyr eraill yn sir Conwy.

## DYSGU GARTREF

Mae gwaith cartref yn rhan hanfodol o raglen yr ysgol. Mae'n bwysig i annog astudio annibynnol, ac rydym yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau gwaith cartref mor amrywiol â phosibl.

Bydd gweithgareddau gwaith cartref yn cael eu gosod bob wythnos gan adrannau trwy Microsoft Teams a bydd rhieni yn derbyn e-bost wythnosol yn manylu ar y gwaith cartref a osodwyd a'r gwaith cartref a gwblhawyd.

## ADDYSG BERSONOL, CYMDEITHASOL AC IECHYD

Credwn fod Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd yn ganolog i ddatblygiad cyffredinol pob myfyriwr, ac mae sawl agwedd ar fywyd yr ysgol yn cyfrannu at y nod hwn. Mae pob disgybl, felly, yn dilyn rhaglen Addysg Bersonol, Cymdeithasol ac Iechyd. Mae'r rhaglen yn cynnwys addysg gyrfaoedd, datblygu sgiliau ymchwil ac astudio, addysg rhyw ac addysg iechyd.

## FFONAU SYMUDOL

Er mwyn helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer dysgu, ac mewn ymateb i ymchwil diweddar ar iechyd meddwl pobl ifanc yn eu harddegau, mae'r ysgol bellach yn 'Ofod Di-Fôn'. Rydym yn cydnabod y gallai myfyrwyr fod yn awyddus i ddod â ffôn symudol i'r ysgol er diogelwch wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, ac felly rydym yn gofyn i bob myfyriwr 'gloi' eu ffôn mewn cwdyn 'Yondr' diogel ar ddechrau'r dydd wrth ddod i mewn i'r safle. Bydd hwn yn eu meddiant yn ystod y dydd, a byddant yn gallu datgloi'r cwdyn mewn argyfwng, os bydd angen eu ffôn arnynt mewn gwers benodol ar gyfer dysgu, neu ar ddiwedd y dydd wrth iddynt adael y safle. Bydd yr ysgol yn darparu cwdyn i bob myfyriwr ond bydd rhaid i fyfyrwyr dalu am unrhyw golled neu ddifrod i'r cwdyn.

## ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) rôl hanfodol o ran gwella lles a diogelwch dysgwyr ac mae'n orfodol o fewn Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae ein polisi'n cael ei lywio gan:

- Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru 2020.
- Papur Gwyn Llywodraeth Cymru Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion 2019.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol yn cynnwys dysgu sy'n briodol o ran datblygiad o amgylch y meysydd thematig canlynol:

- Hawliau ac ecwiti
- Perthnasoedd
- Rhyw, rhywedd a rhywioldeb
- Cyrff a delwedd corff
- Iechyd a lles rhywiol
- Trais, diogelwch a chefnogaeth.

Ein nod yw:

- darparu gwybodaeth am berthnasoedd cariadus, natur rhywioldeb a phrosesau atgenhedlu dynol
- paratoi myfyrwyr i ystyried perthnasoedd mewn modd cyfrifol ac iach, o fewn fframwaith o werthoedd ac ymwybyddiaeth o'r gyfraith
- helpu myfyrwyr i adnabod goblygiadau a risgiau corfforol, emosiynol a moesol rhai mathau o ymddygiad
- annog myfyrwyr i werthfawrogi gwerth bywyd teuluol sefydlog, priodas, cyfrifoldebau bod yn rhiant a'r angen i ymddwyn yn gyfrifol
- deall manteision cyrchu gwahanol ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chyngor.

Bydd pob myfyriwr yn cymryd rhan yn rhaglen addysg rhyw Ysgol Aberconwy ar wahanol adegau priodol i'w hoedran yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

## ADDYSG AC ARWEINIAD GYRFAOEDD

Mae Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin yn gwmni annibynnol sy'n arbenigo mewn rhoi cyngor, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol ynglŷn â gyrfaoedd. Mae'n cydweithio â holl fyfyrwyr Ysgol Aberconwy.

Mae un o Ymgynghorwyr Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i roi cyngor am yrfaoedd i bobl ifanc yn unigol ac mewn grwpiau. Mae hefyd yn mynychu cyfarfodydd rhieni yn yr ysgol i drafod dewisiadau 14+ ac 16+. Mae rhai myfyrwyr Blwyddyn 10 a 12 yn ymgymryd â phrofiad gwaith mewn cwmnïau lleol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, bydd myfyrwyr yn cael cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i archwilio byd gwaith trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC), ABCI a meysydd cwricwlwm.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae Ysgol Aberconwy yn credu bod sefydlu perthynas bositif gyda'r rhieni yn hanfodol er mwyn cyrraedd ei nodau addysgol. Mae ein drws yn agored bob amser. Ni fydd rhieni yn cael eu troi i ffwrdd ar unrhyw adeg heb weld aelod o'r staff, ond os oes angen sylw unigol a phreifatrwydd, gellir gwneud apwyntiad ymlaen llaw trwy swyddfa'r ysgol.

Bydd derbynnydd yr ysgol bob amser yn barod i gymryd neges dros y ffôn, ynghyd â rhif ffôn y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi, ac yn sicrhau bod y nodyn neu'r neges lafar yn cael eu cyfleu i'r unigolyn iawn.

Rydym yn ffodus iawn bod gennym rieni sydd mor barod i wirfoddoli i gynorthwyo'r ysgol mewn amryw o ffyrdd. Os hoffech ein cynorthwyo mewn unrhyw fford, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

# GOFAL BUGEILIOL YN YSGOL ABERCONWY

## GRWPIAU TIWTOR

Mae pob disgybl yn perthyn i grŵp tiwtor sy'n cynnwys bechgyn a merched o allu cymysg. Rôl y tiwtor ydy dod i adnabod y plant dan ei ofal/ei gofal a bod yn gyfrifol am y weinyddiaeth ddyddiol megis marcio'r gofrestr, archwilio'r wisg ysgol a darllen hysbysiadau dyddiol.

## TAI

Mae pob myfyriwr yn Ysgol Aberconwy yn perthyn i Dŷ. Mae pob Tŷ wedi'u henwi ar ôl un o isafonydd afon Conwy. Mae lliwiau pob Tŷ yn cael eu harddangos ar grysau polo'r myfyrwyr.

Yn ogystal, mae pob Tŷ yn cynnig cyfle i gymryd rhan a chystadlu, drwy weithgareddau fel cystadlaethau cwis rhwng y Tai a chystadlaethau chwaraeon. Yn ogystal, maent yn trefnu Dyddiau Codi Arian at Elusen.

## GOFAL BUGEILIOL

Cyfrifoldeb y Penaethiaid Blwyddyn ydy gofal bugeiliol y myfyrwyr. Mae Mentor Blwyddyn llawn amser nad yw'n addysgu ar gael ar gyfer pob Blwyddyn i ymdrin ag unrhyw faterion a phryderon bugeiliol o ddydd i ddydd.

Bydd Pennaeth pob Blwyddyn yn cadw llygad manwl ar gynnydd academaidd myfyrwyr o fewn eu Blwyddyn. Bydd y Mentor Blwyddyn neu'r athro dosbarth yn siarad â myfyrwyr bob hanner tymor i fwrw golwg ar eu cynnydd.

Mae'r ysgol hefyd mewn cysylltiad â nifer o wasanaethau cefnogi sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor mewn sawl ffordd. Rydym yn ymgynghori â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth Meddygol i Ysgolion, y Gwasanaeth Seicolegol i Ysgolion, y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg. Mae nyrs ysgol ar gael unwaith yr wythnos sy'n cynnal cyfarfodydd cyfrinachol â myfyrwyr.

## ADDYSG GREFYDDOL A CHYD-ADDOLI

Mae gennym raglen wedi'i chynllunio ar gyfer cyd-addoli drwy wasanaethau. Ein nod yw meithrin safonau moesol a moesegol uchel, gan annog myfyrwyr i fyfyrio ar faterion a dangos ymagwedd ofalgar wrth ymdrin â hwy. Pan na cheir gwasanaeth, bydd pob dosbarth yn cael 'Munud i Feddwl'.

Nid oes gan yr ysgol dueddiadau crefyddol a darperir addysg grefyddol yn unol â'r Maes Llafur cytunedig.

Os nad yw rhiant yn dymuno i'w plentyn dderbyn addysg grefyddol neu fynychu gwasanaeth, ar sail cydwybod, gellir gwneud trefniadau amgen. Os ydy rhiant yn dymuno tynnu eu plentyn allan o wersi addysg grefyddol neu wasanaethau, yna dylent ysgrifennu at y Pennaeth.

## GWISG YSGOL

Mae polisi'r ysgol yn datgan y dylai pob myfyriwr wisgo gwisg ysgol. Cefnogir y polisi hwn gan y Corff Llywodraethu.

## BLWYDDYN 7 – 11

- Crys polo gwyn sy'n dangos lliw'r tŷ ar y goler
- Crys chwys yr ysgol – glas tywyll
- Sanau gwyn, du neu lwyd (wedi'u gwisgo o dan y pen-glin)
- Esgidiau du
- Trowsus/sgert wedi'i phletio llwyd neu ddu (neu siorts wedi'u teilwra yn nhymor yr haf)

## Y CHWECHED DOSBARTH

- Siwmper lwyd sy'n dangos arfbais yr ysgol a blows/crys gwyn
- Tei glas a melyn yr ysgol
- Trowsus/sgert ddu ac esgidiau du

## CIT AG

**Cit gorfodol:**

- Crys Polo Addysg Gorfforol gyda logo'r ysgol arno.
- Siorts Addysg Gorfforol mewn du plaen neu las tywyll gyda logos brand bach neu siorts beicio du plaen (dros 18cm o hyd).
- Unrhyw esgidiau ymarfer sy'n addas ar gyfer Addysg Gorfforol (dylai'r rhain fod yn wahanol i'r rhai a wisgir fel rhan o'r wisg ddyddiol - mae angen dewis arall er mwyn hylendid a chyfforddusrwydd).

**Eitemau dillad dewisol:**

- Haen waelod du neu las tywyll ar gyfer cynhesrwydd i'w wisgo o dan siorts/crysau.
- Legins du neu las tywyll (naill ai gan ein cyflenwyr neu gyda logos brand bach yn unig).
- Trowsus tracwisg du neu las tywyll (naill ai gan ein cyflenwyr neu gyda logos brand bach yn unig).
- Siwmper sip ¾ Ysgol Aberconwy gyda logo'r ysgol.

Ni chaniateir i fyfyrwyr wisgo stydiau trwyn, modrwyau, clustdlysau mawr neu unrhyw dyllu arall yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn parchu arwyddocâd diwylliannol, crefyddol a phersonol gwahanol steiliau gwallt. Hoffem i fyfyrwyr deimlo y gallant ddathlu eu gwallt naturiol ac felly caniateir i fyfyrwyr wisgo eu gwallt mewn steiliau sy'n adlewyrchu eu treftadaeth ddiwylliannol a/neu arferion crefyddol.

Mae gwybodaeth bellach am wisg ysgol sy'n cynnwys y steiliau a'r mathau o ddillad a gymeradwyir ar gael o **www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/school-uniform/**

## CYFLENWYR GWISG YSGOL

**Uniformed** -
24 Madoc Street, Llandudno, LL30 2TL

**Personalise Me Print Ltd** -
The Old Bakery, Erw Wen Road, Colwyn Bay, LL29 7SD

## ABSENOLDEB

Dylai'r rhieni gysylltu â'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf y salwch, ac anfon nodyn gyda'r plentyn pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol. Mae'r ysgol yn cysylltu â rhieni yn achos pob absenoldeb fel rhagofal yn erbyn trwantiaeth. Ni ddylai rhieni gymryd gwyliau blynyddol y tu allan i wyliau'r ysgol. Dylai pob apwyntiad meddygol/deintyddol fod y tu allan i oriau'r ysgol lle bo'n bosibl hefyd.

## SALWCH YN YR YSGOL

Os bydd disgybl yn cael ei daro/tharo'n wael neu'n cael damwain yn yr ysgol, gall yr ysgol:

- gynnig cymorth cyntaf gan aelod o'r staff gyda'r cymwysterau priodol yn achos mân ddamweiniau
- gysylltu â'r rhieni er mwyn i'r myfyriwr gael mynd adref
- gysylltu â'r ysbyty yn uniongyrchol a gofyn i'r rhieni hebrwng eu plentyn yno neu gyfarfod â'u plentyn yno os yw'r ddamwain yn un ddifrifol.

Mae gan yr ysgol dîm o staff sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i fyfyrwyr sy'n teimlo'n sâl neu sydd wedi cael damwain.

Os nad yw'n bosibl cysylltu â rhieni ac os bydd angen triniaeth mewn ysbyty, gall athro/athrawes roi caniatâd ar ran y rhieni.

Gofynnir i rieni roi gwybod i'r ysgol am unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol.

## RHAGLEN ESTYNNOL

Mae'r ysgol yn cynnig rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol. Ceir manylion am y rhain ar wefan yr ysgol, yn y bwletin myfyrwyr ac yn llyfryn gweithgareddau'r ysgol

## ASESU, COFNODI AC ADRODD AM GYNNYDD MYFYRWYR

Anfonir adroddiad llawn, ysgrifenedig at rieni bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys sylwadau gan y tiwtor dosbarth a'r Pennaeth Blwyddyn.

Yn ychwanegol, bydd myfyrwyr yn derbyn adroddiadau interim rheolaidd, sy'n rhoi syniad o'r cynnydd y mae pob myfyriwr yn ei wneud ym mhob maes pwnc, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ym mhob pwnc a chrynodeb o'u presenoldeb a'u cyflawniadau ar draws yr ysgol.

Bydd Pennaeth Blwyddyn a Mentor Blwyddyn myfyrwyr yn trefnu i drafod unrhyw faterion sy'n codi a datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd lle ceir tangyflawni.

## NOSWEITHIAU RHIENI

Cynhelir Nosweithiau Rhieni unwaith y flwyddyn. Maent yn cynnig cyfle pwysig i'r rhieni drafod cynnydd eu plentyn gyda'r athrawon ac rydym yn eich annog i'w mynychu.

## NODAU GWEITHGAREDDAU CHWARAEON

Rydym yn awyddus i'r Addysg Gorfforol a ddarperir yn Ysgol Aberconwy fod yn brofiad pleserus, gofalgar, trefnus a pharchus lle mae pawb yn derbyn cefnogaeth sy'n eu galluogi i gyrraedd eu llawn potensial. Rydym yn ymdrechu i ddatblygu agweddau positif at iechyd a lles gan annog ein disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, awyr agored a chwaraeon gydol eu hoes.

## MYFYRWYR AG ANGHENION YCHWANEGOL

Mae gan Ysgol Aberconwy drefniadau sefydledig ar gyfer nodi a darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol myfyrwyr unigol. Os oes gan fyfyrwyr anghenion sy'n gofyn am gydweithrediad asiantaethau allanol, cyfrifoldeb y Cydlynydd ADY yw gwneud y cysylltiadau angenrheidiol. Yn ystod pob cam o'r broses o ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol myfyrwyr, rydym yn ceisio cydweithio'n agos â rhieni.

Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan Conwy ar gyfer Dyslecsia a elwir yn Ganolfan Aberconwy ar gyfer Plant â Dyslecsia neu ABCD yn fyr, yn ogystal â chanolfan Conwy sydd newydd ei sefydlu ar gyfer myfyrwyr ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth (ASA), o'r enw Tegfan. Os gwelwch yn dda cysylltwch â'r ysgol a chydlynwyr y canolfannau priodol am ragor o wybodaeth a nodwch fod mynediad i'r ddwy uned adnoddau yn cael ei benderfynu drwy banel safoni'r Awdurdod Lleol.

Mae gan yr ysgol hefyd gydlynydd i ddarparu ar gyfer anghenion penodol 'Plant sy'n derbyn gofal'. Unwaith eto, cysylltwch â'r ysgol os hoffech drafod y gefnogaeth a ddarparwn mewn mwy o fanylder.

## COD YMDDYGIAD MYFYRWYR

I gefnogi ein disgyblaeth ysgol, mae'r staff yn defnyddio ystod o sancsiynau gan gynnwys gwaith ychwanegol, atal breintiau a chadw myfyrwyr i mewn. Pan osodir cyfnod cadw i mewn, caiff rhieni eu hysbysu trwy lythyr. Yn ogystal, rydym yn ceisio cydnabod a gwobrwyo cyflawniad drwy system o dystysgrifau a gwobrau.

Dylid nodi bod gan y Pennaeth yr hawl i wahardd myfyrwyr rhag mynychu'r ysgol yn barhaol neu am hyd at 45 diwrnod mewn blwyddyn ysgol. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn gwaharddiadau i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

# GWYBODAETH AM BOLISÏAU YSGOL ABERCONWY

## RHEOLAETH Y SAFLE

Mae gwasanaeth arlwyo'r ysgol yn cael ei ddarparu gan gwmni Sodexo, cwmni mawr, rhyngwladol sy'n arbenigo mewn rheoli cyfleusterau, ac sydd hefyd yn gofalu am y gwaith o lanhau a rheoli safle Ysgol Aberconwy.

Mae'r holl ystafelloedd dosbarth wedi'u hadnewyddu ac yn cael eu cynnal i safon uchel iawn. Mae cyfleusterau toiled i'w cael ar hyd ac ar led yr ysgol ac yn cael eu glanhau bob awr.

## COFNODION MYFYRWYR

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion unigol ar gyfer pob myfyriwr. Mae'r rhain yn cynnwys manylion personol a meddygol, adroddiadau ffurfiol a chanlyniadau profion, ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r ysgol yn ystyried ei bod yn bwysig ar gyfer lles a chynnydd y myfyriwr. Defnyddir y wybodaeth a gesglir i ddiogelu myfyrwyr ac i sicrhau bod manylion priodol ar gael i gysylltu â rhieni a gofalwyr os bydd angen.

Gellir rhannu gwybodaeth a gedwir gan yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol am fyfyrwyr a'u rhieni neu warcheidwaid cyfreithlon â sefydliadau eraill fel Llywodraeth Cymru pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny ac fel rhan o brosesau casglu data statudol.

Nod cofnodion myfyrwyr yw hwyluso cyfathrebu dibynadwy rhwng y cartref a'r ysgol ac mae'r ysgol yn darparu mynediad agored i gofnodion myfyrwyr unigol drwy gyfrwng Ap Gateway ar gyfer rhieni myfyrwyr dan 18 oed. Pan fydd amgylchiadau personol myfyriwr yn newid ac mae angen i'r ysgol fod yn ymwybodol o hynny, gofynnir i rieni roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl.

Am ragor o fanylion am y wybodaeth sydd gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol a'r defnydd a wneir ohoni, ewch i'n gwefan.

## COLLEDION NEU DDIFROD

Gofynnir i rieni nodi nad yw'r Awdurdod a'r Corff Llywodraethu yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion, na difrod i eiddo personol yn yr ysgol. Disgwylir i unrhyw fyfyriwr sy'n cael eu dal yn achosi difrod i eiddo'r ysgol dalu am y gwaith atgyweirio neu offer newydd

## LLES

Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am brydau ysgol am ddim a grantiau gwisg ysgol at yr Adran Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - ceir hyd i fanylion a ffurflen gais ar eu gwefan.

## CLUDIANT

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n trefnu cludiant i'r ysgol, rhif ffôn 01492 575595. Mae'r ysgol hefyd yn trefnu gwasanaeth i Gyffordd Llandudno a Deganwy, wedi'i ariannu'n gyfan gwbl gan werthiant tocynnau. Cysylltwch â 'r ysgol i gael mwy o fanylion am y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth hwn

## TREFNIADAU AR GYFER MYFYRWYR AG ANABLEDDAU

Mae'r ysgol yn gwbl hygyrch ar gyfer myfyrwyr ag anableddau ac yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau presennol. Gellir gwneud cais i weld copi o'r Cynllun Gweithredu Anabledd.

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB

Mae'r ysgol yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac mae gan yr ysgol gynllun cydraddoldeb strategol, sydd i'w weld ar wefan yr ysgol.

## GWYBODAETH GYFFREDINOL AM DDIOGELWCH

Mae'r ysgol yn gwbl ddiogel gyda mynediad rheoledig. Mae ganddi system CCTV sy'n monitro symudiadau myfyrwyr, staff ac ymwelwyr o amgylch yr ysgol. Yn ystod amser egwyl, amser cinio a chyn ac ar ôl ysgol mae timau o staff sydd ar ddyletswydd yn goruchwylio'r myfyrwyr.

## TALU AM WEITHGAREDDAU'R YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu polisi o godi tâl ar ddisgyblion am:

- gostau lluniaeth a llety ar deithiau addysgol
- gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol
- gwersi dysgu offerynnau
- arholiadau allanol nad yw'r ysgol wedi paratoi'r myfyriwr ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn academaidd honno
- arholiadau lle nad yw'r myfyriwr wedi llwyddo i gwblhau gofynion yr asesiadau dan reolaeth neu fynychu'r arholiad heb reswm teilwng
- arholiadau y mae'r myfyriwr neu'r rhieni wedi gofyn am gael eu hail-sefyll
- difrod bwriadol neu esgeulus i eiddo'r ysgol neu am ddinistrio eiddo'r ysgol.

Trefnir amrywiaeth o deithiau er mwyn cyfoethogi profiad myfyrwyr yn yr ysgol. Er mai ein nod yw sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn cael ei eithrio o deithiau ysgol oherwydd anallu i dalu, y mae'n bwysig fod costau'r daith yn cael eu talu er mwyn i'r gweithgaredd barhau.

## YR IAITH GYMRAEG

Ein nod yw cynorthwyo myfyrwyr i barhau â'u datblygiad dwyieithog. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i wella eu dealltwriaeth a'u gafael ar yr iaith er eu budd personol ac er mwyn gwella eu cyfleoedd gwaith. Mae pob myfyriwr yn astudio'r Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 11 ac yn sefyll yr arholiad priodol ar ddiwedd y cwrs, gyda'r opsiwn i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.

Anelwn at feithrin yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru lle bynnag y bo modd yn yr ysgol ac o'i chwmpas, ac yn ddiweddar dyfarnwyd Gwobr Arian Siarter Iaith Cymraeg Campus i'r ysgol i gydnabod ein hymagwedd.

Rydym yn dilyn polisi dwyieithog mewn perthynas â:

- gohebiaeth swyddogol
- penawdau ar hysbysfyrddau swyddogol
- dogfennau'r ysgol

## POLISI DERBYNIADAU

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn unol â pholisi derbyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r polisi yn datgan y canlynol mewn perthynas â meini prawf derbyniadau: "mewn amgylchiadau lle bydd nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer safonol, bydd yr Awdurdod yn ystyried y meini prawf canlynol yn y drefn a nodir:

1. Bydd yr AALl yn cynnal y cysylltiadau rhwng ysgolion babanod a iau penodol a rhwng ysgolion iau a chynradd penodol ac ysgolion uwchradd penodol.
2. Bydd yr AALl yn ystyried anghenion addysgol arbennig plant (gan gynnwys y rhai hynny sy'n destun datganiadau dan Adran 7 Deddf Addysg 1981) ac unrhyw amgylchiadau arbennig eraill, gan gynnwys anghenion meddygol neu gymdeithasol.
3. Bydd yr AALl yn caniatáu i frodyr neu chwiorydd iau ddilyn plant hŷn i'r ysgol a fynychir gan y plentyn hŷn.
4. Bydd yr AALl yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod lle yn cael ei gynnig i'r plentyn yn yr ysgol briodol agosaf. Wrth ystyried y maen prawf hwn, rhoddir ystyriaeth hefyd i drefniadau cludiant ac unrhyw lwybr peryglus rhwng y cartref a'r ysgol."

Rhif safonol presennol yr ysgol ar gyfer derbyn yw 204.







## CYHOEDDIADAU ERAILL

Y mae'r cyhoeddiadau canlynol ar gael hefyd o'r ysgol ac ar ein gwefan:

- Llyfrynnau Dewisiadau
- Prosbectws y Chweched Dosbarth
- Gweledigaeth yr ysgol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru
- Datganiad diogelu data'r ysgol
- Adroddiad Estyn 2018
- Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

Yn y cyhoeddiadau uchod a'r llyfryn hwn mae'r ysgol a'r Corff Llywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau dan y Deddfau Addysg i ddarparu gwybodaeth i rieni.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf Addysg yn rhoi hawl i rieni wneud cais i gael mynediad i'r wybodaeth ganlynol:

- Datganiad Polisi Cwricwlwm yr Awdurdod Addysg Lleol
- Memoranda a chylchlythyrau gweinyddol a anfonwyd at yr ysgol gan Lywodraeth Cymru
- Adroddiadau Estyn
- Cynlluniau Gwaith a Meysydd Llafur a ddefnyddir ar hyn o bryd, gan gynnwys Gorchmynion Statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Copïau o drefniadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod i'w hystyried mewn perthynas ag unrhyw gwynion am gwricwlwm yr ysgol
- Y Maes Llafur a Gytunwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol parthed Addysg Grefyddol

Mae gwefan yr ysgol yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd llafur a digwyddiadau'r dyfodol. Ewch i **www.aberconwy.conwy.sch.uk**

## Y DREFN GWYNO

Mae Corff Llywodraethu'r ysgol wedi sefydlu trefn i ymdrin â chwynion gan roi ystyriaeth i'r modd y mae'r Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â'r cwricwlwm a materion perthnasol eraill. Mae'r weithdrefn hon wedi'i hamlinellu mewn dogfen yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd ar gael yn yr ysgol neu ar ein gwefan. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwynion neu broblemau yn ymwneud â rheolaeth yr ysgol, mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth yn y lle cyntaf.

## GWYBODAETH

Roedd yr wybodaeth a geir yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg mynd i'r wasg: Gorffennaf 2025.

# GWYBODAETH A MANYLION CYSWLLT


YSGOL GYFUN 11-18 A GYNHALIWYD GAN Y SIR

CATEGORI IAITH 1 | CYFRWNG SAESNEG
PENNAETH | MR I GERRARD BSC
CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR | DR B BIGNOLD

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

info@aberconwy.conwy.sch.uk
www.aberconwy.conwy.sch.uk